**Atebwch os gwelwch yn dda/Please reply to:**
Gwasanaeth Ysgolion **/** Schools Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

*Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for*

*Tîm Trawsnewid Addysg / Transforming Education Team*
*Ffôn / Tel:*
*E-bost / Email:*
*transforming.education@powys.gov.uk*
*Ein cyf / Our ref:*
*Dyddiad / Date: 14 Medi 2023*

At rieni / gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr yn:

Ysgol G.G. Arddlin, Ysgol G.G. Brynhafren, Ysgol G.G. Carreghwfa, Ysgol yr E. yng Ngh. Llandysilio, Ysgol yr E. yng Ngh. Llanfechain, Ysgol yr E. yng Ngh. Llangedwyn, Ysgol yr E. yng Ngh. Llansantffraid, Ysgol Bro Cynllaith, Ysgol Llanfyllin, Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Ysgol Meifod, Ysgol Pennant

Annwyl bawb,

**Adolygiad Dalgylch Llanfyllin / Gogledd Y Trallwng**

Fel y gwyddoch efallai, ailddechreuodd y Cyngor ei adolygiad o ddalgylch Llanfyllin / Gogledd y Trallwng ym mis Ebrill. Roedd hyn yn cynnwys cyfnod o ymgysylltu efo staff a llywodraethwyr ysgolion yr ardal, ac adolygiad o'r 'ffordd ymlaen a ffefrir' a nodwyd yn flaenorol ar gyfer yr ardal.

Mae'r gwaith hwn bellach wedi dod i ben, ac mae'r Cyngor wedi nodi 'ffordd ymlaen a ffefrir' wedi'i ddiweddaru i drawsnewid addysg yn yr ardal. Byddai hyn yn gweld buddsoddiad cyfalaf i adeiladu hyd at dair ysgol newydd, tra’n cefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm iaith i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gallai rhai ysgolion uno, a gallai eraill gau. Y tair ysgol a allai gau yw Ysgol yr E. yng Ngh. Llangedwyn, Ysgol Bro Cynllaith ac Ysgol G. G. Brynhafren.

Byddai angen dilyn proses statudol i weithredu pob rhan o'r 'ffordd ymlaen a ffefrir', yn cynnwys ymgynghoriad llawn gyda’r cymunedau a effeithir. Ni fyddai pob elfen yn symud ymlaen ar yr un pryd; disgwylir y byddai'n cymryd hyd at 10 mlynedd i weithredu'r cynllun.

Ddydd Mawrth 26 Medi, bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried adroddiad lle gofynnir iddynt gymeradwyo mewn egwyddor y cynllun deng mlynedd ar gyfer addysg yn yr ardal. Cyn hyn, bydd hefyd yn cael ei drafod gan Bwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau'r Cyngor, ar ddydd Mercher 20 Medi.

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo hyn, bydd papurau pellach yn cael eu hystyried wedyn i fwrw ymlaen â'r cynigion unigol. Bydd gwybodaeth am hyn yn cael ei rannu gyda'r cymunedau ysgol yr effeithir arnynt ar yr adeg briodol.

Rwy'n sylweddoli y bydd hyn yn achosi ansicrwydd i rai ysgolion. Fodd bynnag, rwy'n eich sicrhau y bydd unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud gyda'r nod o sicrhau y gellir darparu'r cyfleoedd addysgol gorau posibl i ddisgyblion am flynyddoedd i ddod. Rwyf hefyd yn eich sicrhau y bydd cyfleoedd i chi i gyd adael i ni wybod eich barn cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau i fwrw ymlaen â gweithredu unrhyw elfennau o'r ffordd ymlaen a ffefrir ar gyfer yr ardal.

Yn gywir,



Lynette Lovell
**Cyfarwyddwr Addysg a Phlant**


Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.